

# Tyfu Canolbarth Cymru
# Mai 2024

**Croeso i lythyr newyddion mis Mai!**

Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar waith cynllunio allweddol a fydd yn helpu i lywio dyfodol trafnidiaeth yn y rhanbarth.

Ein harolwg Cefnogi Menter Rhaglen Safleoedd ac Eiddo Bargen Twf Canolbarth Cymru nawr yn fyw. Rhannwch â busnesau. Nod yr arolwg yw nodi'r angen am ymyrraeth ar ffurf cyllid yn y farchnad leol ar gyfer safleoedd ac eiddo masnachol.

Rydym hefyd yn edrych ar sut y mae'r aelod o'r tîm sy'n cael sylw y mis hwn, sef Teresa Peel-Jones, yn datblygu grwpiau clwstwr busnes y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, sy'n cyfrannu at ddarparu gwybodaeth leol o wahanol sectorau am fylchau ac anghenion o ran sgiliau ac at ddarparu gwybodaeth am heriau o ran recriwtio.

Helpu i dyfu cyfle yng Nghanolbarth Cymru,

*Tîm Tyfu Canolbarth Cymru*

[Clawr: Arfordir, Ceredigion ©Croeso Cymru]

## Cynnwys


- Trafnidiaeth Canolbarth Cymru

- A oes angen cymorth arnoch i ehangu eiddo masnachol? Cymerwch rhan yn ein harolwg *Cefnogi Menter*
- Cwrdd â'r Tîm: Teresa Peel-Jones, Employer Engagement Officer, Mid Wales Regional Skills Partnership Team
- Newyddion arall: Croesawu aelod newydd i'r tîm!


## Trafnidiaeth Canolbarth Cymru


Ardal Trafnidiaeth Canolbarth Cymru, sef TraCC gynt, yw canol Cymru ac mae'n ymestyn o'r ffin â Lloegr yn y dwyrain i arfordir Cymru yn y gorllewin ac yn cynnwys awdurdodau lleol Powys a Cheredigion. Mae'r ardal hefyd yn cynnwys rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.


Ers 1 Ebrill 2024, Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru sy'n gyfrifol am waith cynllunio Trafnidiaeth Canolbarth Cymru.

Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Drafnidiaeth newydd. Ers mis Ionawr 2023, mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru sydd ar ei newydd wedd wedi dechrau ar ei waith, sy'n cynorthwyo ac yn llywio gwaith Cyd-bwyllgor Corfforedig newydd Canolbarth Cymru. Bydd y cynllun lefel uchel hwn yn egluro'r polisïau a fydd yn galluogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i weithio gyda'i awdurdodau lleol ar raglen gyflawni a fydd yn cyfrannu at weithredu strategaeth Llywodraeth Cymru yn rhanbarthol.

Bydd llawer o dasgau allweddol yn cael eu cyflawni rhwng nawr a mis Mehefin 2025 cyn i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rheini yn cynnwys adolygiadau gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig a Llywodraeth Cymru ac ymgynghoriad cyhoeddus. Am y tro, fodd bynnag, dyma gipolwg ar rywfaint o'r gwaith sy'n digwydd yn y cefndir yng nghyswllt y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol:






**Y camau nesaf**

Lluniwyd amcanion ar gyfer goresgyn rhai o'r problemau a'r materion ac ar gyfer gwneud yn fawr o gyfleoedd, a bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n awr gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru.

Pan fydd yr amcanion hynny wedi'u cadarnhau yn derfynol, bydd drafft o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gael yn gyhoeddus a fydd yn ysgogi cyfleoedd i ymgysylltu er mwyn i randdeiliaid ystyried a rhannu safbwyntiau ac adborth yn ei gylch.

## A oes angen cymorth arnoch i ehangu eiddo masnachol?

Mae ein Rhaglen Safleoedd ac Eiddo Bargen Twf Canolbarth Cymru yn cynnal arolwg er mwyn deall yn well gynlluniau busnesau ar draws y rhanbarth ar gyfer tyfu yn y dyfodol a'u hangen am eiddo masnachol.

Nod yr arolwg yw nodi'r angen am ymyrraeth ar ffurf cyllid yn y farchnad leol ar gyfer safleoedd ac eiddo masnachol. Bydd yr ymatebion i'r arolwg yn galluogi ni i ystyried amrywiaeth o opsiynau o ran cymorth, a allai helpu busnesau i gyflawni eu nodau o ran datblygu.

Rydym am gasglu cynifer o ymatebion ag sy’n bosibl fel y gellir dadansoddi’r data sy’n dod i law er mwyn deall y galw am gymorth. Yna, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i adolygu’r opsiynau a gweld beth yw eu hyd a’u lled.

Bydd yr arolwg ar agor tan 5 Gorffennaf 2024 a chaiff pob busnes ei annog i gymryd rhan. I gymryd rhan, ewch i: https://bit.ly/SupportingEnterpriseSurvey (Defnyddiwch y gwymplen 'English' ar y dde i newid i'r ffurflen Gymraeg)



## Cwrdd â'r Tîm

Teresa Peel-Jones, Swyddog Ymgysylltu â Chyflogwyr, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru



**Pryd y gwnaethoch ddechrau gyda'r tîm?**

Ymunais â Thîm Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru ym mis Ionawr 2023.

*Cyn ymuno â Thîm Tyfu Canolbarth Cymru, bûm yn gweithio fel Cynghorydd Busnes i Business in Focus ar brosiect Cronfa Adfywio Cymunedol ar gyfer y rhanbarth. Rwyf hefyd wedi bod yn gweithio yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn y canolbarth gyda thrawstoriad o fusnesau micro a busnesau bach a chanolig ar fentrau prosiect Llywodraeth Cymru. Rwy'n siarad Cymraeg yn rhugl, sy'n fantais fawr yn y rôl hon.*

*Rwy'n ffodus iawn fy mod wedi cael fy magu yng Ngheredigion lle cefais fy addysg, ac ar wahân i'r blynyddoedd a dreuliais yn y coleg rwyf wedi treulio'r 21 mlynedd diwethaf yn byw dros y ffin ym Mhowys, ger Machynlleth, gyda'm gŵr a'm teulu. Alla i ddim dychmygu byw na gweithio yn unrhyw le arall, gan fy mod yn dwlu ar y dirwedd ac yn ei hystyried yn fraint cael byw mor agos i'r arfordir ac i gefn gwlad.*

**Allwch chi ddweud mwy wrthym am eich rôl?**

*Fy rôl fel Swyddog Ymgysylltu â Chyflogwyr yw arwain y gwaith o ymgysylltu â chyflogwyr a rhanddeiliaid yn y rhanbarth a rheoli'r grwpiau clwstwr busnes.*

*TMae'r grwpiau clwstwr yn cyfrannu at ddarparu gwybodaeth leol o wahanol sectorau am fylchau ac anghenion o ran sgiliau ac at ddarparu gwybodaeth am heriau o ran recriwtio. Trwy weithio'n agos gyda busnesau rhanbarthol, mae'r grwpiau yn helpu i gasglu gwybodaeth am y farchnad lafur (tystiolaeth) er mwyn i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol allu adrodd yn strategol wrth Lywodraeth Cymru ar ran y sectorau diwydiant hyn a dylanwadu ar flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn sgiliau yn y dyfodol, gan sicrhau bod yr arian yn dod i'r canolbarth.*

*Rwy'n sicrhau bod yna ddata y gellir adrodd yn ei gylch i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni cynllun gweithredu Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru ac i gynorthwyo Rheolwr y Bartneriaeth i hyrwyddo effaith y gwaith ymhlith rhanddeiliaid allanol perthnasol, rhwydweithiau ac asiantaethau.*

*Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf un o safbwynt ein grwpiau clwstwr busnes yn Aberystwyth ym mis Mai 2023, ac erbyn hyn rydym wedi creu 11 o grwpiau clwstwr sectorau â blaenoriaeth sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Tyfu Canolbarth Cymru, sy'n cynnwys grŵp y Cyhoedd, Darparwyr a'r Warant i Bobl Ifanc.*

*Rwy'n rheoli wyth o'r grwpiau clwstwr busnes, sef:*

- ***Amaethyddiaeth***
- ***Adeiladu ac Ynni***
- ***Digidol***
- ***Bwyd a Diod***
- ***Iechyd a Gofal Cymdeithasol***
- ***Gweithgynhyrchu a Pheirianneg***
- ***Twristiaeth***
- ***Cludiant****

*Mae pob grŵp clwstwr yn cyfarfod wyneb yn wyneb bedair gwaith y flwyddyn, ac mae gan bob un ohonynt Gadeirydd sy'n cynrychioli ei sector yng nghyfarfodydd chwarterol Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, sy'n cynnwys darparwyr addysg a hyfforddiant allweddol yn y rhanbarth yn ogystal â Llywodraeth Cymru.*

*Hyd yn hyn mae'r busnesau wedi bod yn helpu i adolygu'r data ar gyfer eu sector, a gaiff ei gynnwys yn rhan o'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth 3 Blynedd 2022 – 2025 sydd wedi'i ddiweddaru.*

*Erbyn hyn mae gennym dros 130 o aelodau yn ein clystyrau, sy'n dangos cymaint yr ydym wedi'i gyflawni yn ystod y 12 mis diwethaf.*

**Rydym wrthi ar hyn o bryd yn datblygu aelodaeth ar gyfer y grŵp clwstwr Cludiant a Logisteg ac rydym yn galw ar unrhyw fusnesau rhanbarthol ym maes cludo nwyddau, trafnidiaeth, bysiau a theithio i gysylltu â ni fel y gallwn symud y grŵp hwnnw yn ei flaen. Gallwch gael mwy o wybodaeth trwy anfon neges ebost ataf midwalesrsp@powys.gov.uk.*



*1 - Trafod sgiliau digidol a rhwystrau yn ein Grŵp Clwstwr Busnes Digidol.*

**Beth yw eich blaenoriaethau presennol?**

*Rwy'n parhau i estyn allan i'r diwydiant ac i gyfarfod â busnesau er mwyn gwella aelodaeth y grwpiau clwstwr. Mae'r dull hwn o weithredu wedi bod yn llwyddiannus ac mae wedi fy ngalluogi i feithrin dealltwriaeth werthfawr o sut y mae pob sector yn gweithio ac o'r cyfleoedd niferus sydd gan y rhanbarth i'w cynnig. Rwyf hefyd yn mynychu digwyddiadau rhanbarthol ar ran y Bartneriaeth er mwyn codi ein proffil.*

*Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n mapio'r ddarpariaeth o ran hyfforddiant ar gyfer y sector Adeiladu ac Ynni yn y rhanbarth a thros y ffin. Yng nghyfarfod diwethaf y clwstwr Adeiladu ac Ynni ym mis Ebrill gwnaethom wahodd NPTC, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion i roi cyflwyniadau ynghylch eu darpariaeth ym maes adeiladu. Roedd hwn yn gyfle i fusnesau adrodd yn ôl i'r colegau ynghylch eu gofynion.*




*2 - Bu Teresa ac aelodau tîm y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cefnogi ac yn mynychu Gwobrau Prentisiaethau Cymru 2024 a drefnwyd gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, gan ymgysylltu ag amryw siaradwyr. Roedd y gweithdai'n ymdrin â thwf ymhlith busnesau bach a chanolig, a heriau o ran recriwtio a deallusrwydd artiffisial.*

**Pa ddatblygiadau yr ydych wedi'u gweld dros y blynyddoedd?**

*Mae datblygiadau o ran technoleg yn golygu bod modd i chi redeg busnes llwyddiannus yng nghanolbarth Cymru a masnachu'n fyd-eang, fel y gwelir yn achos llawer o'n busnesau rhanbarthol. Mae rhwystrau'n cael eu dymchwel ac mae drysau'n agor, ac mae hynny'n cynnig cynifer o gyfleoedd i'r economi leol, sy'n gyffrous.*

*Mae llawer o swyddi a chyfleoedd o ran gyrfa i'w cael yma ar stepen ein drws. Does dim angen i chi symud allan o'r rhanbarth i lwyddo, ac ni ddylai unrhyw stigma fod yn perthyn i aros yn y rhanbarth. Mae angen i ni sicrhau bod y neges hon yn cael ei chlywed yn ddigon cynnar yn ein hysgolion. Hoffwn weld mwy o fusnesau'n cael eu gwahodd i ysgolion i arddangos hynny, ac mae ein clystyrau yn cynnig y cyfle perffaith i wneud hynny.*

*Rwy'n edrych ymlaen at y cyfleoedd y gall prosiectau'r Fargen Twf eu cynnig i'r canolbarth. Mae gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol rôl i'w chwarae o ran hynny trwy bennu pa sgiliau y mae eu hangen yn y dyfodol o ran gwaith a sicrhau bod y rhanbarth yn gallu diwallu'r anghenion hynny.*

**Beth yw eich cyflawniad mwyaf?**

*Pan oeddwn yn astudio dylunio ffasiwn mewn coleg Celf, cefais gynnig lleoliad gwaith am fis gyda chwmni dillad yn Llundain. Cafodd rhai o fy nyluniadau eu dewis i'w cynhyrchu a'u gwerthu yn Miss Selfridge, sef y gadwyn o siopau stryd fawr. Dim ond 19 oed oeddwn i ar y pryd ond mae'r profiad hwnnw wedi aros gyda fi.*

*Yn y rôl hon, mae llwyddo i sefydlu'r grwpiau clwstwr a'u gweld yn dechrau ar eu gwaith ac yn esblygu yn rhoi boddhad mawr. Er gwaetha'r heriau, rwyf bob amser yn cael fy nghalonogi gan frwdfrydedd a phositifrwydd y busnesau sy'n gweithio yn y rhanbarth ac sy'n creu llwyfan ar gyfer eu gwasanaethau a'u cynnyrch mewn marchnad genedlaethol a byd-eang.*

**Un gair sy'n crynhoi Tîm Tyfu Canolbarth Cymru:**

*Talentog!*

# Newyddion eraill

## Croesawu aelod newydd i'r tîm!

Rydym yn falch o gyhoeddi bod aelod newydd wedi ymuno â thîm Tyfu Canolbarth Cymru. Hoffem groesawu Huw Williams sy'n ymuno â ni fel Swyddog Ynni Rhanbarthol newydd.

Bydd Huw yn darparu cymorth y mae ei angen yn fawr ar Dr Gemma Delafield, yr Arweinydd Ynni Rhanbarthol, gyda'r gwaith o roi cyngor technegol a strategol i Gyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys a rhanddeiliaid allanol ynghylch sut y gallai'r canolbarth leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'i system ynni. Mae hynny'n cynnwys popeth o gynyddu'r ynni a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy yn y rhanbarth i archwilio ffyrdd o ddatgarboneiddio systemau gwresogi, trafnidiaeth a diwydiant. Rydym yn dymuno pob hwyl i Huw yn ei rôl newydd.

Gallwch weld pwy yw pwy yn Tyfu Canolbarth Cymru drwy fwrw golwg ar ein strwythur staffio.



*3 - Huw Williams, Regional Energy Officer*

## Arolwg Busnes Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol

📢At sylw pob busnes a sefydliad!Os ydych wedi eich lleoli ger LlwybrArfordirCymru? Os oes, mae’r arolwg hwn ar eich cyfer chi!

Bydd yr arolwg yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddeall yn well pa gymorth sydd ai angen ar fusnesau/sefydliadau i fanteisio’n llawn ar eu lleoliad a’r cyfleoedd y mae Llwybr Arfordir Cymru a/neu'r Llwybrau Cenedlaethol yn eu darparu.

➡️Cofrestrwch eich diddordeb https://arolwgbusnesllwybrau.cymru




## GlobalWelsh yn partneru â Dŵr Cymru i gynnal ymchwil i 'brain drain' yng Nghymru

Mae'r term 'brain drain yn cyfeirio at 'allfudiad o bobl hyfforddedig neu gymwys iawn o wlad benodol,' mater economaidd cynyddol i Gymru sydd wedi bod yn colli talent ers degawdau. Bydd yr ymchwil yn canolbwyntio ar ddau faes allweddol; pam mae pobl broffesiynol yn gadael Cymru, ac ar ba sail y byddent yn cael eu hannog i ddychwelyd i Gymru yn y dyfodol.

Bydd GlobalWelsh yn chwilio am gymorth gan sefydliadau rhyngwladol sy'n gysylltiedig â Chymry ledled y byd, er mwyn sicrhau ein bod yn cynyddu cyfranogiad i'r ymchwil ac yn cynllunio digwyddiad ar-lein, yn gynnar ym mis Mehefin lle bydd yr Athro Dr Sarah Birchley yn amlinellu cefndir a dull y prosiect ymchwil mawr hwn. Bydd mynychwyr yn cael cipolwg ar y cwestiynau y byddwn yn eu gofyn a sut y gallai canlyniadau'r ymchwil fod o fudd i chi a'ch sefydliad. Cymerwch rhan trwy gofrestru yma: https://connect.globalwelsh.com/events/147229

Mwy o wybodaeth yma.

## Edrych ymlaen

A oes angen i chi ddal i fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Dyma nodyn i'ch atgoffa o ble y gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

https://www.youtube.com/@TCC-GMW

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales